

CYFFES FFYDD

29. Am edifeirwch i fywyd.

Y mae Duw, wrth alw rhai (mewn oed a synnwyr) trwy ei ras, yn rhoddi edifeirwch i fywyd iddynt, sef, cyfnewidiad yn eu meddyliau, eu golygiadau, a'u bucheddau, a galar dwys, diragrith, am bechu yn ei erbyn (a). Ac o herwydd fod llygredd yn y gorau o ddynion ar y ddaear, a'u bod trwy dwyll eu pechodau tufewnol, a themtasiynau y diafol, yn llithro mewn llawer o bethau, y mae Duw wedi darparu yn y cyfamod gras, pan lithro y rhai sy'n credu, fod iddynt gael eu hadnewyddu drachefn trwy edifeirwch (b).

Trwy y gras efengylaidd o edifeirwch y mae yr Ysbryd Glân yn gwneud dyn yn deimladol o fawr ddrwg pechod, a thrwy ffydd yn Nghrist yn ymostwng ac yn ei ffieiddio ei hun o'i blegid, ac mewn galar duwiol yn casáu ei bechod, ac yn gweddïo yn ddifrifol am faddeuant o'i bechodau a aethant heibio, ac am gael ei nerthu trwy ras yn erbyn pechod; ac y mae yn llwyr fwriadu, trwy gymorth yr Ysbryd, i rodio ger bron Duw i bob rhyngu bodd, yn mhob peth (c).

Y mae edifeirwch i barhau trwy holl fywyd y Cristion ; ac y mae yn angenrheidiol, am fod corff y farwolaeth yn parhau. Ac y mae yn ddyletswydd ar y dyn edifarhau, nid yn unig am bechod yn gyffredinol, ond hefyd am ei holl bechodau neilltuol (d).

Y mae y fath ddarpariaeth yn y cyfamod er diogelwch credinwyr, fel er nad oes un pechod mor fychan nad yw yn haeddu damnedigaeth, eto ni ddwg y mwyaf ddamnedigaeth ar yr hwn sy'n gwir edifarhau (e). Felly y mae pregethu edifeirwch yn angenrheidiol bob dydd (f).

29. Of Repentance Unto Life.

God, in calling by his grace those who have arrived at years of discretion, gives them repentance unto life; that is to say, a change is wrought in their thoughts, belief, and lives; and deep, unfeigned sorrow produced, because they have sinned against him (a). And inasmuch as corruption remains in the best of men on earth, and that they through the deceitfulness of their sins within and the temptations of the devil, offend in many things, God has provided, in the covenant of grace, that, when believers offend, they shall be renewed again through repentance (b).

Through the evangelical grace of repentance the Holy Spirit makes the believer sensible of the great evil of sin, and through faith in Christ humbles and abhors himself because of it, and in godly sorrow hates it, and earnestly prays for pardon of his past sins, and to be strengthened through grace against sin; and he fully resolves, with the help of the Spirit, to walk before God unto all pleasing in all things (c).

Repentance must needs continue during the whole life of the Christian, because the body of death continues. It is his duty to repent, not only of sin in general, but also of all his particular sins (d).

Such is the provision in the covenant for the safety of believers, that, as there is no sin so small but deserves condemnation, there is no sin so great that it can bring condemnation upon him who truly repents (e). The preaching of repentance is, therefore, at all times necessary (f).

- (a) Sech./Zech.12:10; Actau/Acts 11:18: 20:21; Marc/Mark. 1:15.**
- (b) 1 Bren./Kings 8:46; Salm/Psa. 19:12, 51:3-4,7,10, 89:32; Hos 14:1-4; Jer. 32:39; Heb. 3:13: Iago/James 3:2.**
- (c) Esec./Ezek. 16:60-61, 18:30-31, 36:31; Salm/Psa. 51:4; Joel 2:12-13; Amos 5:15; Hos. 14:2; 2 Bren./2 Kings 23:25; 2 Cor. 7:11; Salm/Psa. 25:11.**
- (d) Rhuf./Rom. 7:24; Salm/Psa. 32:5, 51:7-14; 1 Ioan/1 John 1:8-9; Luc/Luke 19:8; Jos. 7:19.**
- (e) Luc/Luke 13:3; Actau/Acts 17:30; Rhuf./Rom. 5:12, 6:23, 8:1; Eseia/ Isa. 1:18, 55:7; 2 Sam. 12:13.**
- (f) Luc/Luke 24:47; 2 Tim. 2:25; Actau/Acts 3:19.**